**Cofnodion Cyfarfodydd gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau o Staff Ysgol Gynradd Coedpenmaen**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 21 Hydref 2024 |
| **Amser** | 15:45 |
| **Lleoliad** | Ysgol Gynradd Coedpenmaen |

| **Presenoldeb** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Llythrennau cyntaf yr enw** | **Teitl** |
| Lisa Howell | LH | Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion |
| Non Morgan | NM | Uwch Reolwr Cymorth i Lywodraethwyr a Chynllunio ar gyfer Argyfyngau |
| Nicola Tilling | NT | Uwch Swyddog Adnoddau Dynol |
| Catherine Williams | CW | Swyddog Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Dd/B | Dd/B | Corff Llywodraethu ac Aelodau o Staff Ysgol Gynradd Coedpenmaen |

1. **Croeso a Chyflwyniadau**

   Estynnodd LH groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb eu cyflwyno i'w gilydd.

2. **Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

   Rhoddodd LH drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

3. **Cwestiynau gan Aelodau o Staff ac Aelodau o'r Corff Llywodraethu**

   Gwahoddwyd y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff Ysgol Gynradd Coedpenmaen i ofyn cwestiynau. Mae'r cwestiynau a'r sylwadau a godwyd gan y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff a'r ymatebion a ddarparwyd wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn.

| Rhif | Cwestiwn/Sylw | Ymateb |
|---|---|---|
| 1. | Rydyn ni'n gwerthfawrogi bod lle yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen ar gyfer disgyblion ychwanegol, fodd bynnag, os aiff y cynnig rhagddo, a fyddai unrhyw welliannau'n cael eu gwneud er lles pob plentyn, e.e. i'r ardaloedd awyr agored? | Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) yn ymweld ag Ysgol Gynradd Coedpenmaen i nodi unrhyw waith hanfodol sydd ei angen, e.e. i sicrhau darpariaeth toiledau a chegin ddigonol ac addas. Bydd y gwaith yma'n cael ei gwblhau fel mater o flaenoriaeth. Caiff aelodau o staff ac aelodau o'r Corff Llywodraethu eu hannog i feddwl am unrhyw welliannau eraill yr hoffen nhw eu gweld yn cael eu gwneud. Yna, bydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | y rhain yn cael eu hystyried os bydd y cynnig yn mynd rhagddo. |
| 2. | A fyddai unrhyw arbedion ariannol o ganlyniad i gau Ysgol Babanod Trallwng yn cael eu trosglwyddo i gyllideb Ysgol Gynradd Coedpenmaen? | Na fydd. Byddai unrhyw arbedion yn mynd yn ôl i gyllideb Addysg ganolog y Cyngor. |
| 3. | A oes arian wedi'i neilltuo ar gyfer gwneud gwelliannau yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen? | Mae gan Garfan Addysg y Cyngor gyllideb 'Rhaglen Gyfalaf' bob blwyddyn i wneud gwelliannau i'w hystâd ysgolion. Byddai unrhyw welliannau yn cael eu hariannu drwy Raglen Gyfalaf y Cyngor. |
| 4. | Beth yw goblygiadau'r cynnig i aelodau o staff? | Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai aelodau o staff Ysgol Babanod Trallwng yn cael cynnig adleoli neu ddiswyddo. Mae'r Cyngor yn bwriadu argymell i Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Coedpenmaen y dylai unrhyw swyddi ychwanegol a gaiff eu creu o ganlyniad i'r cynnig gael eu neilltuo i aelodau o staff Ysgol Babanod Trallwng yn y lle cyntaf. Mae hyn yn golygu y byddai'r aelodau o staff yma'n cael y cyfle i wneud cais am swydd, a bydden nhw'n sicr o gael cyfweliad, cyn i unrhyw swyddi gael eu hysbysebu'n allanol. |
| 5. | Mae'r broses drosglwyddo disgyblion o Ysgol Babanod Trallwng i Ysgol Gynradd Coedpenmaen sy'n digwydd ym mlwyddyn tri ar hyn o bryd yn anodd. Mae'n achosi llawer o bryder i ddisgyblion a rhieni/gwarcheidwaid, ac mae'n cymryd blwyddyn i ddisgyblion ymgartrefu. Mae'n anodd i Ysgol Gynradd Coedpenmaen feithrin perthynas â rhieni/gwarcheidwaid. Mae'n cael effaith fawr ar les emosiynol disgyblion a gall fod yn arbennig o heriol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). | Wedi'i nodi. |
| 6. | Nid yw honiadau a wneir gan y gymuned fod Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn orlawn yn wir. Mae'r rhain yn ymwneud â sylwadau a wnaed yn Adroddiad Estyn 2022 ynghylch un dosbarth o ddisgyblion blwyddyn un a | Wedi'i nodi. |

| | | |
|---|---|---|
| | dau. Mae newidiadau wedi'u gwneud ers hynny a chymhareb athro:disgybl o 1:30 yw'r drefn arferol. Mae maint dosbarthiadau Ysgol Gynradd Trallwng, e.e. 17 o ddisgyblion, yn rhoi disgwyliadau afrealistig i rieni/gwarcheidwaid. | |
| 7. | Nid yw erthygl ddiweddar gan Wales Online am y cynnig yn ddefnyddiol ac mae'n anghywir. Mae sylwadau a wnaed am y cynnig ar Facebook gan aelodau o'r gymuned yn anghywir ac yn niweidiol. | Bydd y Cyngor yn ymateb yn ffurfiol i'r rhain drwy'r Adroddiad Ymgynghori. |
| 8. | Argymhellodd Estyn yn ddiweddar y dylai ysgol o Gastell-nedd Port Talbot sydd mewn Mesurau Arbennig ymweld ag Ysgol Gynradd Coedpenmaen i ddysgu o'r arfer dda ac arsylwi'r cynnydd rhagorol a wnaed. | Wedi'i nodi. |
| 9. | Nid yw niferoedd y disgyblion yn y Ddogfen Ymgynghori bellach yn gywir. Mae'r niferoedd bellach yn is nag a ragwelwyd, felly ni fyddai Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn orlawn ym mlwyddyn un. | Wedi'i nodi. Bydd y niferoedd disgyblion diweddaraf yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori. |
| 10. | Beth yw'r amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniad? | Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei drafod gan Gabinet y Cyngor ym mis Ionawr 2025 (Nodwch: Mae'r Dogfennau Ymgynghori'n dweud mis Rhagfyr 2024). Os bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi gan roi cyfnod 28 diwrnod o rybudd ar gyfer gwrthwynebiadau. Bydd Cabinet y Cyngor yn trafod deilliant yr Hysbysiad Statudol ac yn gwneud penderfyniad terfynol yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael (mis Ebrill 2025 i fod). Nodwch: Mae modd i unrhyw benderfyniad gael ei "alw i mewn", sy'n golygu y mae modd i Aelodau Etholedig y Cyngor ofyn iddo gael ei ailystyried. Hyd yn oed os caiff y penderfyniad ei gadarnhau, gallai hyn ychwanegu 10 i 14 diwrnod at y broses. |
| 11. | Mae staff Ysgol Babanod Trallwng eisoes yn chwilio am swyddi eraill. Os na fydd y cynnig yn mynd rhagddo, gallai Ysgol Babanod Trallwng fod â phrinder staff. | Mae'r Cyngor yn deall bod hwn yn gyfnod pryderus ac mae wedi ymrwymo i sicrhau bod y broses yn dod i ben cyn gynted â phosibl. |

| | | |
|---|---|---|
| 12. | Os bydd y penderfyniad yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl, a fydd digon o amser i gwblhau'r gwaith angenrheidiol i'n galluogi i dderbyn disgyblion Ysgol Babanod Trallwng o fis Medi 2025? | Bydd y Cyngor yn ymweld ag Ysgol Gynradd Coedpenmaen i nodi unrhyw ofynion cyn i'r penderfyniad gael ei wneud, fel bod modd i ni fynd i dendr yn gyflym os caiff penderfyniad iwrw ymlaen â'r cynnig ei wneud. |
| 13. | Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai Ysgol Gynradd Coedpenmaen gymryd adeilad Ysgol Babanod Trallwng drosodd, gan sefydlu darpariaeth gofal plant a lleoli dosbarthiadau meithrin i flwyddyn dau yno, gyda dosbarthiadau blynyddoedd tri i chwech yn cael eu lleoli ar safle presennol Ysgol Gynradd Coedpenmaen. | Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen darpariaeth gofal plant yn yr ardal, fodd bynnag, lle mae darpariaethau gofal plant wedi'u lleoli ar safleoedd ysgol, cwmnïau preifat sy'n cynnal y rhain.<br><br>Mae lle i bob disgybl o Ysgol Babanod Trallwng ac Ysgol Gynradd Coedpenmaen ar safle Ysgol Gynradd Coedpenmaen. Mae'r Cyngor yn ystyried ei bod yn fuddiol lleoli pob disgybl ar un safle. |
| 14. | Pryd mae'r ymgynghoriad yn dod i ben? | Rhaid cyflwyno pob ymateb erbyn 5pm ddydd Gwener 15 Tachwedd. Bydd y Cyngor yn rhoi cod QR i Ysgol Gynradd Coedpenmaen i'w rannu ag aelodau o staff, y Corff Llywodraethu a rhieni/gwarcheidwaid a fydd yn eu harwain at y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein. |
| 15. | A yw'r adrannau cynradd yr ysgolion 3 i 16 newydd, Ysgol Bro Taf ac Ysgol Afon Wen, bellach yn llawn? | Mae Ysgol Afon Wen bellach yn llawn. Mae rhywfaint o le yn Ysgol Bro Taf o hyd. |
| 16. | Beth fydd yn digwydd o ran rheoli traffig gyda mwy o rieni/gwarcheidwaid yn codi eu plant o'r ysgol? | Does dim cynlluniau i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Coedpenmaen ac mae Ysgol Gynradd Coedpenmaen wedi gweithredu'n llwyddiannus yn flaenorol gyda niferoedd uwch ar y gofrestr.<br><br>Serch hynny, bydd carfan Addysg y Cyngor yn gweithio gyda chydweithwyr yng ngharfan Priffyrdd y Cyngor i nodi a oes angen unrhyw welliannau. Bydd carfan Addysg y Cyngor hefyd yn argymell bod Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn gweithio gyda Sustrans i ddatblygu Cynllun Teithio Llesol ac yn ystyried cymryd rhan mewn mentrau cyfredol eraill i leihau traffig ger ysgolion, megis “Strydoedd Ysgol”. |

## 4. Sylwadau i Gloi

Mae'r Corff Llywodraethu ac aelodau staff wedi cael eu hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy lenwi'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig at CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:45.